| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **IONAWR 17 2013** |
| **TEITL:** | **CWYNION IAITH** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.** |

**1. CWYNION YN YMWNEUD A'R CYNGOR**

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| **Medi 2012** | Cwyn ynglŷn â Datganiad Dyluniad a Mynediad uniaith Saesneg ynghlwm a chais cynllunio o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i Barc Cenedlaethol Eryri | Yr Adran yn datgan eu bod wedi anfon cyfarwyddid i ddeunydd o'r fath gael ei gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, boed hynny'n gais mewnol neu'n waith ymgynghorwyr ar ran yr Adran |
| **Hydref 2012** | Cwyn fod Canolfannau Hamdden yn cyflwyno tystysgrifau nofio uniaith Saesneg. D.S. Nid y Cyngor sy'n gyfrifol am y tystysgrifau, ond yr Amateur Swimming Associoation (ASA): Mae'r Adran wedi bod yn pwyso am dystysgrifau dwyieithog ers cryn amser, heb lwyddiant hyd yma | Yr Adran bellach wedi derbyn cadarnhad gan yr ASA y bydd tystysgrifau dwyieithog ar gael o'r Pasg 2013 |
| **Hydref 2012** | Cwyn ynglŷn â ffurflen Dadleniad Cofnod Troseddol uniaith Saesneg yn cael eu hanfon allan | Mae'n debyg i'r camgymeriad yma ddigwydd am fod y ffurflenni ar fin cael eu newid, ac nad oedd cyflenwad digonol o'r fersiwn Cymraeg. Y sefyllfa wedi'i chywiro a chyflenwad Cymraeg digonol mewn stoc bellach |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn ynglŷn â'r defnydd o'r ffurf "Caernarvon" ar arwydd ffordd ar bwys yr A55 | Y camgymeriad wedi'i gywiro |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn nad yw peiriant parcio newydd yn rhoi cyfarwyddyd electronig drwy gyfrwng y Gymraeg | Y Gwasanaeth yn nodi fod y peiriannau'n cynnig newid a dewis iaith |

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB. |
|---|---|---|
| **Tachwedd 2012** | Cwyn ynglŷn ag enwau Saesneg yn ymddangos ar fapiau cynllunio | Mapiau'n cael eu cynhyrchu gan y system GIS, ond bydd haen Gymraeg digonol ar gael yn fuan |

**2. CWYNION YN YMWNEUD A CHYRFF ERAILL**

| DYDDIAD | CWYN | YMATEB/ DIWEDDARIAD. |
|---|---|---|
| **Hydref 2012** | 2 gwyn gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn ag arwyddion gwallus tu allan i siop B&M ym Mangor | Cyfeirio'r cwynion at Gomisiynydd y Gymraeg |
| **Hydref 2012** | Cwyn/ ymholiad ynglŷn â threfniadau recriwtio a chyfweld Cartrefi Cymunedol Gwynedd | Cadarnhau gofynion Cynllun Iaith CCG; peidio a mynd a'r ymholiad ymhellach, gan ei fod yn seiliedig ar adroddiad ail-law |
| **Tachwedd 2012** | Cwyn ynglŷn â darpariaeth ieithyddol Cyngor Cymuned Beddgelert (Cymraeg yn unig) | Esbonio bod Cynghorau Cymuned yn annibynnol o'r Cyngor, a chyfeirio'r unigolyn at Gomisiynydd y Gymraeg am ragor o wybodaeth |

**3. DIWEDDARIAD**

a) <u>Bysus Padarn</u>
Y Rheolwr ddim ar gael i gyfarfod hyd at y dyddiad cyhoeddi

b) <u>System hidlo negeseuon</u>
Yr Uned TG wedi canfod ffordd o gyflwyno'r negeseuon yn ddwyieithog, a bydd yn cael ei roi ar waith cyn gynted a phosib

c) <u>Marchnadoedd a defnydd o'r iaith Gymraeg</u>
Mae marchnadoedd Pwllheli, Caernarfon a Phorthmadog yn disgyn dan reolaeth y Cyngor drwy gytundeb. Mae'n ymddangos nad oes gyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn yr amodau presennol (a luniwyd peth amser yn ôl). Mae'r Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi cytuno i edrych ar osod amodau lle mae'r Cyngor yn cyfrannu at gostau hysbysebu.